Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

**ARCHWILIAD O GYFRIFON 2022/23**

HYSBYSIR DRWY HYN O DAN Adrannau 29, 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

1. O 29ain o Ionawr 2024 tan 23ain o Chwefror 2024 yn gynwysedig, rhwng 10.00y.b. a 4.00y.h. o ddydd Llun i ddydd Gwener, gall unrhyw un sydd â diddordeb, ar ôl gwneud cais i'r Prif Weithredwr, ddarllen a gwneud copïau o gyfrifon y sefydliadau a enwyd uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ynghyd â phob llyfr, gweithred, cytundeb, bil, taleb a derbynneb ym Mhencadlys yr Heddlu.

2. Am 9.30y.b. ar 26ain o Chwefror, neu ar ôl hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, Mr Adrian Crompton, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, yn rhoi cyfle i'w holi am y cyfrifon, a gall unrhyw etholwr felly neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd gyfarfod â'r Archwilydd yn y Pencadlys Heddlu a enwyd a chyflwyno gwrthwynebiad i unrhyw ran o'r cyfrifon.

3. Nid yw'n bosibl gwrthwynebu ar ran yr etholwr os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol, cyn hynny, wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig, ac ar ba sail y gwneir hynny. Dylid anfon copi o'r hysbysiad i'r rhai sydd wedi arwyddo isod yn y cyfeiriad a roddwyd.

**Dyddiedig y diwrnod 14eg Rhagfyr 2023 Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF**